



## Rhaglen brechiad y fflw i blant 2018-19 Gwybodaeth i ysgolion cynradd

Mae'r wybodaeth hon ar gyfer penaeithiaid a staff ysgol yn ateb nifer o gwestiynau sydd gan staff efallai am frechiad y fflw drwy chwistrell trwyn sy'n cael ei gynnig i blant mewn ysgolion cynradd yr hydref yma.

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth gyson eich ysgol gyda'r rhaglen hon oherwydd gallu cynnig y brechiad mewn ysgolion yw'r llwybr mwyaf effeithiol er mwyn rhoi brechiadau i blant oedran ysgol.

Peidiwch â llungopio'r ddogfen hon i'w rhoi i blant neu rieni / gwarcheidwaid, oherwydd byddant yn derbyn gwybodaeth eu hunain ar yr amser priodol, gan y tîm gofal iechyd.

### Cefndir

Ym mis Medi 2013, cafodd rhaglen brechiad y fflw ei chyflwyno yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar gyngor arbenigol annibynnol gan y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio (JCVI) sy'n cynghori llywodraethau'r DU ar bolisiau brechu.

Mae plant yn gallu (ac yn) cael y fflw, yn union fel oedolion. Mae fflw mewn plant yn arwain at absenoldeb o'r ysgol a llawer o ymweliadau â meddyg teulu. Gall achosi problemau iechyd difrifol, yn enwedig mewn plant ifanc, gan arwain weithiau at orfod mynd i'r ysbyty. Bydd brechu plant yn helpu i'w gwarchod rhag haint y fflw a hefyd bydd yn helpu i leihau lledaeniad y fflw yn yr ysgol ac i deulu a ffrinidau yn y gymuned.

Mae tystiolaeth yn dangos bod y rhaglen i blant yn cael effaith bositif ar lefelau fflw, ar gyfer y plant sy'n cael eu brechu a'r gymuned yn ehangach. Bu llai o salwch yn y gymuned yn yr ardaloedd lle mae pob plentyn rhwng 2 a 10 oed yn cael brechiad y fflw, gyda llai'n ymweld â meddyg teulu neu'n gorfod mynd i'r ysbyty, a llai'n mynd i adrannau brys mewn ysbytai.

Brechiad drwy chwistrell trwyn o'r enw *Fluenz® Tetra* yw'r brechiad fflw a gynigir i'r rhan fwyaf o blant. Dyma'r brechiad gorau i blant rhag y fflw. Mae gan frechiad y fflw drwy chwistrell trwyn enw rhagorol o ran diogelwch ac mae wedi cael ei ddefnyddio yn rhaglen ysgolion y DU am y pum mlynedd diwethaf, gyda mwy na chan mil o ddosys wedi cael eu rhoi.

Hefyd mae brechiad y fflw i blant oedran ysgol yn gallu helpu i leihau absenoldeb ymhlith disgyblion a staff.

## **Pa blant fydd yn cael cynnig brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn yn yr ysgol yr hydref yma?**

Yn ystod tymor ysgol yr hydref 2018, bydd pob plentyn yn yr ysgol gynradd, o'r dosbarth derbyn i flwyddyn ysgol 6, yn cael cynnig brechiad y fflw fel rhan o raglen yn yr ysgol.

## **Ydi plant iau'n cael cynnig brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn hefyd?**

Bydd plant dwy neu dair oed ar 31 Awst 2018 yn cael cynnig y brechiad yn eu meddygfa (h.y. plant sydd wedi'u geni ar neu rhwng 1 Medi 2014 a 31 Awst 2016). Gall y trefniadau ar gyfer plant tair oed fod yn wahanol o ardal i ardal.

Hefyd gall plant pedair oed ar 31 Awst 2018 sydd heb ddechrau yn yr ysgol pan gynigir brechiad y fflw yn yr ysgol gael eu brechiad yn eu meddygfa.

Nid yw brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn yn addas i blant iau na dwy oed.

## **Pryd mae angen rhoi brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn?**

Yn ddelfrydol dylid rhoi brechiad y fflw cyn i firysau'r fflw ddechrau lledu yn y gymuned (yn gyffredinol nid yw hyn cyn canol mis Rhagfyr).

Mae imiwneidd yn gwanio a gall firysau'r fflw sy'n lledu ac yn achosi problemau iechyd newid, felly mae cynnwys brechiad y fflw yn cael ei adolygu bob blwyddyn i gyfateb i'r firysau y mae disgwyl iddynt fod yn lledu y gaeaf hwnnw.

Brechiad blynyddol y fflw sy'n darparu'r warchodaeth orau rhag y fflw.

## **Pryd fydd rhywun yn cysylltu â'r ysgol?**

Bydd eich bwrdd iechyd lleol yn cysylltu ag ysgolion ryw dro rhwng misoedd Mehefin a Medi 2018. Efallai bod rhywun wedi cysylltu â chi eisoes. Bydd yn esbonio sut (a phryd) fydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno yn eich ysgol.

## **Sut bydd yr ysgol yn rhan o'r rhaglen frechu rhag y fflw?**

Bydd trefniadau lleol ar gyfer eich ysgol yn cael eu gwneud gan eich tîm niwsys ysgol, a fydd yn cysylltu â chi i gytuno ar beth fydd ei angen. Bydd angen dosbarthu llythyr, taflen a ffurflen ganiatâd i rieni'r disgyblion i gyd sydd i gael y brechiad, a rhaid dychwelyd y ffurflen ganiatâd wedi'i llenwi i'r ysgol cyn rhoi'r brechiad. Bydd angen ystafell addas ar gyfer y sesiwn brechu. Bydd y timau gofal iechyd yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau cyn lleied o darfu â phosib.

Gofynnir i ysgolion helpu gyda'r tasgau nad oes posib i'r tîm gofal iechyd eu gwneud yn hawdd, fel anfon gwybodaeth gartref gyda phlant, casglu ffurflenni caniatâd wedi'u llenwi, mynd â phlant i ac o'r sesiwn imiwneiddio a helpu gydag

adnabod plant unigol. Efallai y bydd rhaid i'r nyrs ysgol gysylltu'n agos â'r ysgol pan mae gan blant enwau tebyg.

Bydd cyflwyno'r rhaglen yn dibynnu ar drefniadau lleol ac ysgolion yn cytuno i gynnal y sesiwn imiwneiddio. Os na fydd ysgolion ysgolion am gynnal y sesiwn, efallai y bydd rhaid rhyddhau plant o'r ysgol i gael y brechiad yn eu meddygfa.

## **Pwy fydd yn rhoi brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn i'r plant yn yr ysgol?**

Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan dîm gofal iechyd sy'n cynnwys nyrsys, gweithwyr cefnogi gofal iechyd a staff gweinyddu. Efallai eu bod yn rhan o dîm nyrsys ysgol neu dîm imiwneiddio ysgolion.

## **Sut bydd brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn yn cael ei roi?**

Enw'r brechiad yw Fluenz® Tetra ac mae'n cael ei roi drwy chwistrell trwyn syml. Bydd un chwistrell yn cael ei roi i fyny dau dwll y trwyn. Mae'r plentyn yn gallu anadlu fel arfer tra mae'r brechiad yn cael ei roi.

Mae plant sydd wedi derbyn y brechiad yma'n dweud ei fod yn teimlo fel "cosi i fyny'r trwyn".

## **Beth sy'n digwydd os yw plentyn yn sâl ar ôl brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn?**

Mae gan frechiad y fflw drwy chwistrell trwyn enw rhagorol o ran diogelwch ond, fel gyda phob meddyginiaeth, gall nifer bach o bobl deimlo'n sâl ar ôl ei chael.

Er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd, os bydd plentyn yn teimlo'n sâl ar ôl cael y brechiad:

- os yw'r tîm gofal iechyd dal ar y safle, gofynnwch am gyngor yn uniongyrchol ganddynt hwy;
- os yw'r tîm gofal iechyd wedi gadael y safle, rhaid rheoli'r digwyddiad yn unol â'r polisïau presennol ar gyfer salwch disgyblion yn yr ysgol. Ar ôl gwneud trefniadau priodol ar gyfer y plentyn, cysylltwch â'r tîm gofal iechyd i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r digwyddiad.

## **Oes posib dal y fflw gan blant sydd wedi cael brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn?**

Nac oes. Mae Fluenz® Tetra yn cynnwys firysau sydd wedi cael eu gwario ac felly nid yw'n gallu achosi fflw.

Er ein bod yn gwybod bod plant yn cael gwared ar firws am ychydig ddyddiau ar ôl y brechiad, nid yw'r un fath â haint fflw naturiol, sy'n lledaenu'n hawdd. Nid yw'r firws maent yn cael gwared arno ar ôl brechiad yn goroesi'n hir y tu allan i'r corff ac nid yw'n gallu lledaenu mor rhwydd o berson i berson â haint fflw naturiol.

Nid yw eithrio plant o'r ysgol yn ystod cyfnod cynnig y brechiad, neu yn ystod yr wythnosau canlynol, yn cael ei ystyried yn angenrheidiol. Yr unig eithriad i hyn fyddai'r nifer bach o blant sydd ag anawsterau imiwnedd eithriadol (er enghraifft, ar ôl trawsblaniad mêr yr esgyrn). Ni fyddai'r plant hyn yn mynychu'r ysgol fel rheol, oherwydd y risg uchel o fod mewn cysylltiad ag amrywiaeth o heintiau, gan gynnwys haint ffliw naturiol, sy'n lledaenu'n rhwydd mewn ysgolion.

## **Oes unrhyw sgil-ffeithiau i frechiad y ffliw drwy chwistrell trwyn?**

Nid yw sgil-ffeithiau difrifol yn gyffredin ond gall llawer o blant gael trwyn yn rhedeg neu drwyn llawn, cur pen, blinder o bosib neu golli archwaeth bwyd sy'n para dim mwy nag ychydig ddyddiau yn gyffredinol.

## **Ydi pob plentyn yn gallu derbyn y brechiad drwy chwistrell trwyn?**

**Dylid cyfeirio pob cwestiwn am addasrwydd y brechiad ar gyfer plant unigol i sylw'r tîm gofal iechyd ac ni fydd disgwyl i staff yr ysgol ateb cwestiynau am hyn.**

Bydd brechiad drwy chwistrell trwyn yn addas i'r rhan fwyaf o blant. Bydd rhieni plant sy'n methu cael y brechiad chwistrell trwyn yn cael cyngor gan y tîm nyrsio i gysylltu â'u meddygfa i drefnu pigiad brechiad y ffliw i'w plentyn.

## **Ydi plant yn cael eu gwarchod rhag y ffliw am oes ar ôl cael brechiad y ffliw drwy chwistrell trwyn?**

Nac ydynt. Gall firysau'r ffliw newid ac mae brechiad yn cael ei greu bob blwyddyn i gyfateb i'r firysau y mae disgwyl iddynt fod ar led dros y gaeaf hwnnw. Brechiad blynyddol y ffliw sy'n darparu'r warchodaeth orau rhag y ffliw.

## **Sut ceir caniatâd rhiant/gwarcheidwad?**

Trefnir caniatâd rhiant drwy lythyr, taflen wybodaeth a ffurflen ganiatâd y bydd y tîm gofal iechyd yn eu darparu. Yn ddelfrydol, bydd y wybodaeth hon yn cael ei hanfon gartref o'r ysgol gyda'r plentyn. Dylai rhiant / gwarcheidwad lofnodi'r ffurflen ganiatâd a'i dychwelyd erbyn y dyddiad cau y cytunir arno i'r ysgol, lle bydd y tîm gofal iechyd yn eu casglu.

## **Ydi rhieni'n cael gwrthod i'w plentyn gael y brechiad?**

Ydynt. Nid yw'r brechiad yn orfodol. Bydd rhaid i rieni roi eu caniatâd gwybodus ar gyfer rhoi'r brechiad.

## **A fydd angen i'r rhieni fod yn bresennol pan roddir y brechiad?**

Nid oes disgwyl i rieni fod yn bresennol pan mae eu plentyn yn cael y brechiad.

## **Beth sy'n digwydd os bydd y plentyn yn absennol o'r ysgol ar ddiwrnod y sesiwn brechu?**

Pan mae caniatâd rhiant wedi cael ei roi i blentyn gael brechiad y fflw yn yr ysgol ond bod y plentyn yn absennol ar ddiwrnod y sesiwn yn yr ysgol, bydd y tîm gofal iechyd yn anfon llythyr at y rhiant fel ei fod yn gallu trefnu i'w blentyn gael brechiad y fflw mae wedi'i golli yn ei feddygfa.

## **Ydi staff yr ysgol yn gallu cael y brechiad?**

Dylai staff yr ysgol sydd â risg gynyddol o ddiodef o gymhlethdodau'r fflw oherwydd beichiogrwydd, oedran neu gyflwr iechyd tymor hir gael brechiad y fflw gan eu meddyg teulu neu yn y fferyllfa gymunedol.

Bydd rhai darparwyr addysg yn dewis cynnig brechiad y fflw i athrawon a staff ysgol drwy gyfrwng eu gwasanaethau iechyd galwedigaethol eu hunain.

Efallai y bydd unigolion nad ydynt yn gymwys i gael brechiad y fflw am ddim gan y GIG, neu nad ydynt yn cael ei gynnig fel rhan o gynllun iechyd galwedigaethol, yn dewis prynu brechiad y fflw yn breifat o fferyllfa gymunedol neu gan ddarparwr gofal iechyd preifat.

Nid yw Fluenz<sup>®</sup> Tetra, y brechiad drwy chwistrell trwyn ar gyfer y fflw sy'n cael ei ddefnyddio fel rhan o'r rhaglen i ysgolion, wedi cael ei drwyddedu ar gyfer ei ddefnyddio gydag oedolion yn y DU.

## **Ble mae cael rhagor o wybodaeth?**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch nyrs ysgol, a fydd yn gallu cynghori ar wybodaeth ac adnoddau ar gyfer rhieni a disgyblion.

Mae dolenni at adnoddau llawn gwybodaeth ar y rhyngwrwd wedi'u cynnwys isod:

Tudalennau Curwch Fflw ar y we

[www.curwchffliw.org](http://www.curwchffliw.org)

[www.beatflu.org](http://www.beatflu.org)

Bydd taflen fflw plant 2018 ar gael o

[www.nhsdirect.wales.nhs.uk/doityourself/vaccinations/Leaflets/?locale=cy](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/doityourself/vaccinations/Leaflets/?locale=cy)

Mwy o wybodaeth am y fflw a'r brechiad ar gael o

[www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/f/article/flu\\_seasonal/?locale=cy](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/f/article/flu_seasonal/?locale=cy)

Taflen wybodaeth am Fluenz<sup>®</sup> Tetra i gleifion

[www.medicines.org.uk/emc/medicine/29109](http://www.medicines.org.uk/emc/medicine/29109)